

# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar Gyngor Sir Fynwy

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

## **Cyflwyniad**

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad ar wasanaethau oedolion yng Nghyngor Sir Fynwy ('yr awdurdod lleol') ym mis Gorffennaf 2022. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Ceisiwn ateb y cwestiynau canlynol a osodwyd gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

### **1. Pobl – llais a dewis**

Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?

### **2. Atal**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn lleihau, ac yn atal cynnydd yn yr angen wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl i bobl yn cael eu cyflawni?

### **3. Llesiant**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

### **4. Partneriaethau**

I ba raddau y gall yr awdurdod lleol sicrhau ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig, cynaliadwy o safon i bobl?

Bu'r arolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol ar gyfer helpu ac amddiffyn pobl. Roedd cwrdd yr arolygiad yn cynnwys y canlynol:

- gwerthusiad o brofiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cael wrth ymwneud â gwasanaethau.
- tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a phartneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a bod ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau.
- ystyried sut y mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol.

## **1. Crynodeb**

- 1.1 Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Sir Fynwy yn profi cyfnod heriol o ran darparu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a brofir ar hyn o bryd gan wasanaethau oedolion yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, gan gynnwys lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.
- 1.2 Mae heriau prinder gofal cartref yn amlwg yn cael effaith ar ddarparu gofal a chymorth. Er ei fod wedi'i gymhlethu gan y pandemig, mae'r mater o ddigonolrwydd gofal cartref wedi parhau yn yr awdurdod lleol ers peth amser, fel y gwelwyd yn adroddiad arolygu AGC yn 2019. Mae gan yr awdurdod lleol heriau amlochrog o ran ei ddemograffeg a'i ddaearyddiaeth sy'n effeithio ar argaeledd y gweithlu. Mae costau byw yn y sir yn uchel, a bydd yr argyfwng costau byw presennol ond yn gwaethygu hyn. Gallai hyn olygu na fydd pobl a fyddai'n gweithio yn y sector gofal cartref yn gallu fforddio byw o fewn ardal yr awdurdod lleol.
- 1.3 Dywedodd staff wrthym am yr heriau o ran cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol oherwydd diffyg adnoddau. Er bod enghreifftiau gweithredol da o weithwyr proffesiynol yn cydweithio, yn enwedig yn y timau integredig, nid yw partneriaethau effeithiol bob amser ar waith i sicrhau canlyniadau da i bobl. Clywsom y gall rhyddhau o'r ysbyty fod yn faes pwysau penodol. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i weithio'n strategol ac yn weithredol gyda'i bartneriaid yn y bwrdd iechyd lleol i chwilio am atebion i liniaru'r sefyllfa.
- 1.4 Mae recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol hefyd yn fater cenedlaethol. Clywsom gan reolwyr nad yw'r twf yn y galw wedi cyd-fynd â thwf mewn timau staff. Her allweddol yn y dyfodol yw bod nifer o staff yn agosáu at oedran ymddeol, a gyda hyn daw risg y bydd gwybodaeth a phrofiad yn cael eu colli. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y risg hon, a rhaid iddo gymryd camau gweithredu, gan mai ei gyfrifoldeb ef yw cynnal gweithlu digonol sydd â'r cymwysterau priodol i ateb y galw cynyddol.
- 1.5 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i bryderon diogelu uniongyrchol. Drwy ddarllen cofnodion gofal cymdeithasol, gwelsom dystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn y tîm diogelu yn gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o'r bwrdd iechyd lleol a'r heddlu, yn ogystal â thimau ehangach yr awdurdod lleol, i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Er i ni ganfod dystiolaeth o welliant yn yr amser a gymerwyd i gynnal ymholiadau, mae oedi o hyd mewn rhai

sefyllfaoedd. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phartneriaid i ymgorffori'r trothwy ar gyfer pryderon diogelu yn ogystal â'r angen i gwblhau ymholiadau yn unol â chanllawiau statudol.

- 1.6 Gwelsom, yn gyffredinol, fod lleisiau'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu clywed. Fodd bynnag, canfuom hefyd fylchau mewn arferion gwaith cymdeithasol lle nad oedd cryfderau a risg yn cael eu hystyried a'u cofnodi'n llawn, ac nid oedd effaith gofal yn cael ei chydabod bob amser. Gall diffyg chwilfrydedd proffesiynol, dadansoddi a chofnodi golygu nad yw pobl yn cael y gwasanaethau o ansawdd y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i'w darparu.
- 1.7 Gwelsom nad oedd cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau bob amser yn cael ei archwilio a'i gofnodi'n llawn, gan olygu nad oedd hawliau pobl yn cael eu cyfleu'n gyson iddynt. Ar adegau, roeddem yn ei chael yn anodd deall y rhesymeg dros ddarparu gwasanaethau. Ni chynhelir adolygiadau statudol ychwaith mewn modd amserol. Mae'r awdurdod lleol yn colli cyfleoedd i ganfod a yw pobl wedi cyflawni eu canlyniadau neu'n parhau i fod angen cymorth i wneud hynny.
- 1.8 Mae'r meysydd a amlygwyd ar gyfer gwelliant yn yr adroddiad hwn yn ein harwain i benderfynu bod goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr sicrhau bod ganddynt well golwg ar arfer rheng flaen drwy brosesau sicrhau ansawdd gwell.
- 1.9 Yn y gwasanaethau oedolion, mae ffocws strategol cryf ar atal a thrawsnewid ymarfer trwy brosiect 'Alinio Gofal yn Seiliedig ar Leoedd Sir Fynwy'. Mae'r awdurdod lleol yn disgrifio gweithio yn seiliedig ar leoedd fel ffordd o adeiladu rhwydwaith o gymorth cymunedol, mewn lle penodol, i helpu pobl i aros yn gysylltiedig â'r pethau sy'n bwysig iddynt i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant a helpu i atal, arafu, a lleihau'r angen am ofal a chymorth mwy ffurfiol. Mae'r 'Cynllun Rhwydwaith Llesiant Integredig 22/23' lefel uchel yn manylu ar sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud y gorau o'r ffordd o weithio yn seiliedig ar leoedd i gynnwys cydleoeli'r timau gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd integredig gyda phartneriaid llesiant cyffredinol. Bydd AGC yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn y dyfodol.
- 1.10 Er ein bod yn cydnabod yr heriau cenedlaethol sy'n gyffredin â'r rhai sy'n effeithio ar awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae angen i Gyngor Sir Fynwy, a'i bartneriaid, wneud rhagor o waith i sicrhau bod eu datblygiadau strategol a gweithredol yn canolbwyntio ar gyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn ogystal â sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio'n gyson i egwyddorion Deddf 2014, gan sicrhau bod pobl yn gallu derbyn y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.

1.11 Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau i ymarfer a gwell canlyniadau i bobl. Cyflawnwyd y cynnydd hwn yn erbyn cefndir o bwysau a heriau ychwanegol pandemig COVID-19.

## **Prif ganfyddiadau a thystiolaeth**

Rydym yn cyflwyno rhai o'r prif ganfyddiadau a thystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf.

## **2. Pobl – llais a dewis**

### **Cryfderau:**

2.1 I lawer o bobl, mae eu lleisiau'n cael eu clywed, ac mae canlyniadau personol pobl yn cael eu dal. Gwelsom rai bywgraffiadau manwl a chynhwysfawr ac amgylchiadau personol, gan ddangos 'yr hyn sy'n bwysig' i'r person. Dywedodd llawer o bobl fod y gwasanaethau cymdeithasol yn ddefnyddiol a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan ymarferwyr.

2.2 Roedd tystiolaeth bod galluedd yn cael ei ystyried yn y rhan fwyaf o'r cofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd ac roedd asesiadau y darllenon ni o alluedd meddyliol pobl yn dda ar y cyfan, gyda thystiolaeth o wybodaeth a gallu ymarferwyr i ymarfer yn unol ag egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol (2005).

2.3 Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi cyfle i bobl deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain ac mae'n gadarnhaol bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n eu derbyn. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i roi sicrwydd iddo'i hun y cynigir taliadau uniongyrchol yn gyson yn ogystal â sicrhau bod y rheswm pam y mae'r person yn eu gwrthod yn cael ei gofnodi.

### **Yr hyn y mae angen ei wella:**

2.4 Roedd ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn amrywio. Nid yw cryfderau'r bobl yn cael eu hystyried yn dda. Gall barn broffesiynol a dadansoddiad o risgiau fod yn wael ac ychydig iawn o gofnodion sy'n dogfennu bod risgiau wedi'u hystyried. Rhaid i'r awdurdod lleol wella'r ffordd y mae'n adlewyrchu cryfderau a rhwystrau'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol, a'r risgiau na fyddant yn eu cyflawni. Gallai adolygiad o'r dogfennau i gynnwys y pum maes asesu yn benodol, fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2014, helpu ymarferwyr i fynegi amgylchiadau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw yn fwy effeithiol ac mewn ffordd sy'n fwy seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

- 2.5 Er i ni weld y cynnig Cymraeg a dewis iaith pobl yn cael ei gofnodi mewn llawer o gofnodion gofal cymdeithasol, mae data perfformiad yr awdurdod lleol yn dangos bod angen gwelliant o ran cynnig a chofnodi'r cynnig gweithredol Cymraeg yn gyson, i sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn effeithiol. Yn yr achosion pan nad Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y person dylai'r awdurdod lleol ystyried defnyddio cyfieithydd er budd y person wrth iddo fynegi ei ganlyniadau, oherwydd gellid ystyried bod defnyddio aelodau teulu i gyfieithu ar y pryd yn gwrthdaro buddiannau.
- 2.6 Nid ydym wedi'n sicrhau bod yr angen am eiriolaeth yn cael ei ystyried yn gyson gan bob ymarferydd. Mae cynnig a darparu eiriolaeth nid yn unig yn bwysig i sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed, ond mae hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod hawliau'r bobl yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pwysigrwydd eiriolaeth yn cael ei ddeall a bod eiriolaeth ffurfiol yn cael ei chomisiynu pan fo angen. Efallai y bydd yr awdurdod lleol am ystyried ffordd o gofnodi'r cynnig fel mater o drefn er mwyn sicrhau ei hun bod eiriolaeth yn cael ei hystyried a'i defnyddio'n briodol.
- 2.7 Er gwaethaf cynnydd cadarnhaol yn nifer y bobl sy'n derbyn y cynnig o Daliad Uniongyrchol, mae diffyg adnoddau digonol i brosesu'r ceisiadau hyn. Mae angen i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth i gynyddu ei adnoddau er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at daliad uniongyrchol mewn modd amserol. Rydym yn ymwybodol o gydweithio rhanbarthol i weld a oes modd symleiddio'r broses o roi taliad uniongyrchol ar waith.
- 2.8 Mae angen gwella cysondeb wrth gofnodi cymhwysedd pobl ar gyfer gwasanaethau cymorth. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o bobl yn cael asesiad therapi galwedigaethol ar gyfer offer, ond a oedd yn talu'n breifat am gymorth, ac er y gallai hyn fod yn ddewis personol, ni chynigiwyd asesiad iddynt. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod hawliau pobl yn cael eu hamddiffyn drwy gynnig asesiad yn benodol ar gyfer gofal a chymorth gan nodi unrhyw anghenion cymwys. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr o bob disgyblaeth yn y timau integredig yn ymwybodol o'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2014.
- 2.9 Er bod rhai gofalwyr yn cael cynnig asesiadau, ac roedd y rhai a glywon ganddynt yn gyffredinol yn hapus ar y gefnogaeth roedden nhw'n ei derbyn, mewn cofnodion gofal cymdeithasol eraill roedd hi'n anodd nodi sut yr oedd effaith bod yn ofalwr yn cael ei ystyried neu roedd hi'n anodd gweld cynnig o asesiad. Yn ystod trafodaethau â staff, gwnaethant gydnabod yr effaith ar ofalwyr o ganlyniad i ddiffyg gofal cartref, ond nid oedd hyn yn arwain at gynnig o gymorth cyson. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i hybu llesiant y gofalwyr yn ogystal â'r rhai y gofelir amdanynt, gan gynnig asesiadau gofalwyr yn benodol i bobl drafod pa gymorth sydd ei angen arnynt i barhau i sicrhau eu rolau gofalu yn gynaliadwy, a sicrhau bod y rhesymau dros wrthod asesiad yn cael eu

cofnodi fel mater o drefn.

- 2.10 Dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd gan eu rheolwyr. Roedd y ffeiliau goruchwyllo a welwyd yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. Yn yr un modd â llawer o wasanaethau oedolion eraill ledled Cymru, ni chaiff trafodaethau goruchwyllo eu cofnodi ar gofnodion gofal cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn anodd deall lefel yr oruchwyliaeth gan reolwyr wrth ddarllen y cofnod. Mae goruchwyliaeth yn rhoi cyfle i fyfyrion, herio'n adeiladol i greu newid, nodi cyfleoedd a allai gael eu colli a magu hyder. Rydym yn ymwybodol bod yr awdurdod lleol yn y broses o ailddrafftio ei bolisi goruchwyllo. Mae angen iddo sicrhau ei hun bod rheolwyr yn goruchwyllo achosion yn gadarn a bod sgysiau myfyriol yn cael eu cynnal, ac y caiff digon o wybodaeth ei nodi i ddangos tystiolaeth o wneud penderfyniadau.
- 2.11 Mae angen i uwch reolwyr ddatblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth perfformiad ymhellach. Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar ailfywiogi ei broses sicrhau ansawdd gan nad ydym wedi cael sicrwydd bod y prosesau dan sylw yn effeithiol. Rydym yn ymwybodol o offeryn archwilio yn y tîm diogelu ond nid yw'r defnydd ohono wedi'i wreiddio'n llawn eto oherwydd yr heriau o ran staffio yn y tîm. Byddai gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn yn sicrhau bod gan reolwyr yr awdurdodau lleol y golwg gwell sydd ei angen ar arferion a gwneud penderfyniadau'r rheng flaen ac yn sicrhau bod gofal a chymorth yng Nghyngor Sir Fynwy yn ddiogel ac yn effeithiol

### **3. Atal**

#### **Cryfderau:**

- 3.1 Mae gan Gyngor Sir Fynwy weledigaeth a chynllun clir i weithio tuag at ddulliau'n seiliedig ar leoedd. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn gweithio tuag at egwyddorion a gytunwyd arnynt a bod ganddynt ddiben cyffredin. Gallwn weld sut y mae'n gryfder arbennig yn yr awdurdod lleol a sut mae ffocws strategol ar sicrhau bod gwasanaethau llesiant cyffredinol ar gael mewn cymunedau. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaeth gan ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Clywsom sut y caiff llwyddiant y gwasanaeth llesiant ataliol ei fesur drwy gasglu straeon a phrofiadau pobl o newid o ganlyniad i gael cymorth cyffredinol sy'n amlygu sut maent yn cyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt.
- 3.2 Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o restrau aros ar draws meysydd gwasanaeth ac yn eu monitro, sydd yn amlwg yn effeithio ar ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i bobl, ond er gwaethaf y galw hwn gwelsom rai enghreifftiau da o gymorth a gynigir mewn modd amserol. Mae'r model o dimau integredig, lle mae gweithwyr proffesiynol gwahanol yn gweithio gyda'i



gilydd, yn ddigon hyblyg fel y gellir teilwra a chyfeirio cymorth. Ymatebir i geisiadau am gymorth brys.

### **Beth sydd angen ei wella:**

- 3.3 Yng nghyd-destun presennol gofal cymdeithasol i oedolion, mae blaenoriaethu cymorth a gwasanaethau ataliol yn effeithiol yn her aruthrol. Gwyddom fod gwasanaethau cymorth cyffredinol yn gryfder arbennig yng Nghyngor Sir Fynwy, fodd bynnag, yr her i uwch reolwyr yw bod yn rhaid iddynt hefyd sicrhau bod amser ac egni cyfartal yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal a chymorth statudol i sicrhau bod y rhain hefyd yn gallu darparu ystod o opsiynau ataliol i fodloni canlyniadau'r bobl.
- 3.4 Gwyddom fod y galw yn fwy na'r cyflenwad, ac o ran gofal cartref, mae hyn wedi bod yn wir ers peth amser yng Nghyngor Sir Fynwy. Gwelsom enghreifftiau o bobl yr oedd angen gofal arnynt yn eu cartrefi eu hunain i aros yn annibynnol, ond nid oedd hyn ar gael. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu bod angen i ofalwyr ddarparu mwy o ofal nag y gallant heb gael effaith andwyol ar eu llesiant eu hunain. Nid oes amheuaeth bod y gweithlu yn ymdrechu i gefnogi pobl a chlywsom ei bod yn rhwystredigaeth iddynt asesu pobl gan wybod nad oes gofal cartref ar gael. Mae effaith hefyd yr amser a'r adnoddau a gyfeirir at reoli'r risg barhaus o bobl yn byw heb y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
- 3.5 Deellir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ond mae darparu gofal cartref i hwyluso rhyddhau pobl yn ddiogel yn her i'r awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym sut y gall hyn arwain at bobl yn gorfod mynd i gartref gofal wrth aros am becyn gofal. Heb y ffocws ar gadw'r person mor annibynnol â phosibl, mae'r trefniadau interim hyn, ar adegau, wedi arwain at y person yn dod yn breswlydd parhaol mewn cartref gofal wrth i'w anghenion gynyddu neu wrth iddo ddod yn ddibynnol ar ofal pedair awr ar hugain. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig am hawliau dynol y bobl, a'r effaith ar arian cyhoeddus a chynaliadwyedd.
- 3.6 I lawer o'r bobl, mae'r oedi i gael eu hasesiadau a'u hadolygiadau o ganlyniad i restrau aros sy'n amlwg ar draws timau a phroffesiynau. Mae ffigurau perfformiad yr awdurdod lleol yn dangos mai dim ond tua hanner yr holl adolygiadau sydd angen eu cynnal sy'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol. Mae hyn yn golygu bod perygl o beidio â mynd i'r afael ag anghenion newidiol pobl ac na chaiff unrhyw ddirywiad ei nodi ar y cam cynharaf. Mae hefyd yn colli'r cyfle i wasanaethau ddod i ben pan nad oes eu hangen mwyach, a fyddai'n rhyddhau capasiti i mewn i'r farchnad gofal cartref. Nid yw'n glir o'r system gofnodi p'un a oes adolygiad ffurfiol o ofal a chymorth wedi'i gynnal a ph'un a yw'r cymorth sydd eisoes ar waith yn cyflawni

canlyniadau person fel y rhagwelwyd. Dywedodd darparwyr hefyd nad ydynt yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan mewn adolygiadau. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, ac y gwahoddir yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu, oherwydd mae'n colli'r cyfle i sicrhau ei hun bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

#### **4. Llesiant**

##### **Cryfderau:**

- 4.1 Gwelsom enghreifftiau da o ddiogelu oedolion yn effeithiol ac yn amserol, a chefnogwyd y farn hon gan bartneriaid allweddol.
- 4.2 Mae ymarferwyr ym maes diogelu oedolion yn hyderus yn eu gallu i ymateb i bryderon diogelu a gweithredu lle bo angen. Gwelsom fod yr ymateb i atgyfeiriadau diogelu yn amserol a bod trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol, a bod y rhan fwyaf yn cael eu cynnal mewn modd amserol, er gwaethaf adroddiadau y gall fod yn heriol cael ymateb gan yr heddlu ar adegau oherwydd y pwysau o flaenoriaethu eu gwaith.
- 4.3 Mae'r tîm diogelu wedi datblygu agweddau o'r gwasanaeth yn gadarnhaol gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o drothwyon a thrafod pryderon â phartneriaid trwy ymgysylltu, er enghraifft cyfarfodydd rheolaidd gyda Llanarth Court, ysbyty diogel arbenigol ar gyfer pobl â salwch meddwl a/neu anabledau dysgu.
- 4.4 Yn gyffredinol, roedd adborth o'r arolwg staff yn nodi bod y staff/ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr a bod llwythi gwaith yn hylaw. Roedd Cynllun Busnes Gwasanaeth Integredig 21/22 yn amlygu llesiant y staff fel risg uchel ac roedd camau gweithredu i liniaru hyn yn y cynllun. Clywsom sut oedd morâl staff yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd rheolwyr yn uchel eu parch gan y staff, a dywedodd rheolwyr yn eu tro fod ganddynt weithlu ymrwymedig ac ymroddgar. Roedd gweithwyr yn gwerthfawrogi hygyrchedd rheolwyr a chefnogaeth cymheiriaid gan aelodau'r tîm.

##### **Beth sydd angen ei wella:**

- 4.5 Gwelsom sut mae'r mesur perfformiad ar gyfer ymholiadau adran 126 sy'n cael eu cynnal o fewn saith diwrnod wedi gwella. Y ffigwr diwedd blwyddyn ar gyfer 2020/21 oedd 51.1%, a gododd i 65.5% ar ddiwedd 2021/22. Mae hyn wedi gwella ymhellach a'r ffigwr ar ddiwedd chwarter cyntaf 2022/23 bellach yw 75.7%. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen rhai gwelliannau o hyd. Clywsom ar adegau y gall fod oedi gan gydweithwyr yn y bwrdd iechyd lleol, ac mewn

timau mewnol, yn cwblhau'r ymholiadau diogelu o fewn yr amserlen statudol, oherwydd y pwysau y mae hyn yn ei roi ar y staff. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan yr holl staff a phartneriaid ddealltwriaeth well ynghylch cydnabod eu rôl o ran amddiffyn pobl a gweithio mewn partneriaeth â'r tîm diogelu.

4.6 Mae angen gwelliannau wrth sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed yn ystod y broses ddiogelu gan nad yw'r canlyniadau y mae pobl eu heisiau bob amser yn cael eu cofnodi'n glir. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn ganolog yn ystod ymholiadau diogelu.

4.7 Rydym yn cydnabod bod gan y tîm diogelu gynllun datblygu, ond mae cynnydd wedi'i rwystro gan ddiffyg capasiti rheoli oherwydd materion staffio. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rheolwr penodedig yn gallu canolbwyntio ar gyflawni'r gwelliannau y manylir arnynt yn y cynllun, er mwyn sicrhau bod holl Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan wedi'u hymgorffori mewn ymarfer, gan gynnwys monitro ei heffeithiolrwydd.

4.8 Clywsom am sut mae angen gwella system gofnodi'r awdurdod lleol er mwyn adlewyrchu gofynion gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn llawn. Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys sicrhau bod gan bob ymarferydd rheng flaen fynediad amserol at gofnodion pryderon diogelu hanesyddol a chyfredol a chymau gweithredu a gymerwyd gan y tîm diogelu.

4.9 Mewn cynllunio gofal mwy cyffredinol, mae cofnodi risg a rheoli risg yn faes i'w wella. Yn aml nid oes unrhyw dystiolaeth o ystyriaeth a roddwyd i risg wedi'i nodi yng nghynlluniau gofal pobl ac felly nid yw'n hawdd dangos barn broffesiynol a dadansoddiad o sefyllfaoedd pobl.

4.10 Nid oes llawer o gynlluniau wrth gefn yng nghofnodion gofal cymdeithasol pobl. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r arfer hwn er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar y person, yn gallu cynorthwyo ymarferwyr ar ddyletswydd/y tu allan i oriau nad ydynt efallai'n gyfarwydd â'r person, ac yn atal pobl rhag gorfod ailadrodd eu straeon.

4.11 Clywsom gan ymarferwyr eu bod yn teimlo effaith negyddol diffyg cymorth gofal cartref, gan wybod bod pobl mewn perygl yn y gymuned ac yn clywed y rhwystredigaethau y mae pobl a'u teuluoedd yn eu mynegi iddynt. Gwnaethon nhw hefyd siarad am effaith gorfod ymgymryd â rôl gomisiynu cyrchu pecynnau gofal. Dywedodd ymarferwyr wrthym nad yw sefydlu rhai timau wedi cynyddu digon i gydnabod y cynnydd mewn galw a chymhlethdod. Dywedodd uwch

reolwyr wrthym eu bod ar hyn o bryd yn modelu'r gweithlu gyda'r nod o alinio cymhlethdod anghenion ag adnoddau priodol. Dylai'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth gyfathrebu fewnol, oherwydd gallai ymarferwyr elwa ar sicrwydd bod uwch reolwyr yn gweithio tuag at ddarparu atebion i leddfu eu pryderon.

## **5. Partneriaethau ac Integreiddio**

### **Cryfderau:**

- 5.1 Gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn datblygu perthynas waith proffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithrediad a dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n bwysig.
- 5.2 Yn gyffredinol, gwelsom sut y manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Clywsom sut mae partneriaethau cydweithredol yn amlwg o ran gwasanaethau llesiant cyffredinol yn cael eu lleoli ar 'lefel stryd' yn y gymuned – ac mae cyd-ddealltwriaeth o lesiant yn cael ei dangos yn ei hystyr ehangaf gan 'goeden llesiant' Dull Cydweithredol Sir Fynwy o Lesiant a ddatblygwyd gan bartneriaid cymunedol a Phrifysgol Abertawe. Rydym yn deall bod mwy o waith yn cael ei wneud i ychwanegu gwasanaethau statudol at y model seiliedig ar le er mwyn sicrhau tîm cyfannol, yn seiliedig ar leoedd, o fewn cymunedau.
- 5.3 Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol. Mynegodd mwyafrif helaeth y staff y farn bod y model integredig o ddarparu gwasanaethau yn gryfder. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio agos rhwng therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, a gweithwyr cymdeithasol a chlywsom am fanteision integreiddio a chydleoli i sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl. Mae'r partneriaethau a adeiladwyd gyda gofal iechyd sylfaenol yn amlwg o fudd i'r bobl sy'n gweithio yn y model tîm integredig ac sy'n derbyn gwasanaethau ganddo.

### **Beth sydd angen ei wella:-**

- 5.4 Clywsom fod perthnasoedd ym maes iechyd eilaidd yn heriol yn enwedig o ran rhyddhau o'r ysbyty. Gall cyfathrebu fod yn anodd a gall diffyg ystyriaeth o'r pwysau yn y gymuned arwain at ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amhriodol sy'n gadael timau cymunedol yn delio ag argyfwng. Mae'r ymarferwyr wedi mynegi eu pryderon am yr ymarfer yn briodol i'w huwch-reolwyr.
- 5.5 Mae gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gyd-gynhyrchir yn gofyn am welliant ac mae angen gwreiddio ymhellach feysydd asesu ac egwyddorion Deddf 2014 yn ymarferol. Ar adegau, mae'r cymorth yn cael ei arwain gan y gwasanaeth ac yn weithredol yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r person eisiau eu cyflawni. Deallwn fod cynlluniau ar

waith, gan gynnwys sesiynau hyfforddi pellach ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, i wella hyn.

5.6 Roeddem yn aneglur ynghylch rolau a chyfrifoldebau comisiynu gan fod ymarferwyr wedi dweud wrthym eu bod yn cysylltu â darparwyr yn uniongyrchol i gomisiynu gofal. Dylai'r awdurdod lleol adolygu hyn o ystyried yr heriau presennol y mae'r timau'n eu hwynebu a phwysau rhestrau aros.

5.7 Rydym yn ymwybodol o'r cynllun i ddatblygu 'Micro-ofalwyr' ac yn croesawu unrhyw fenter newydd i unioni'r sefyllfa bresennol. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu eto, ond gall helpu mewn ardaloedd gwledig, anodd eu cyrraedd, a lefelau isel o angen. Mae angen sicrwydd pellach o ran strategaeth gomisiynu'r awdurdod lleol i gomisiynu gofal cartref i bob unigolyn sydd ei angen.

## **Y camau nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Sir Fynwy ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

## **Methodoleg**

### **Gwaith maes**

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu trwy adolygu profiadau pobl trwy adolygu ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Fe wnaethom adolygu 28 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain wyth.

Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill.

Gwnaethom y canlynol hefyd; -

- cyfweld ag amrywiaeth o weithwyr awdurdod lleol
- cyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector
- adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- cynnal arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl.

## **Diolchiadau**

Dymuna AGC ddiolch i'r staff, partneriaid, a'r bobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.